

YSGOL DAVID HUGHES

PORTRAETHWY
YNYS MÔN LL59 5SS

Ffôn: (01248) 712287
e-bost:pennaeth.davidhughes@ynysmon.gov.uk



MENAI BRIDGE
ISLE OF ANGLESEY LL59 5SS

Tel: (01248) 712287
e-mail:pennaeth.davidhughes@anglesey.gov.uk

Pennaeth/Headteacher
H Emrys Williams BSc MEd

Gwefan/Website: www.ysgoldavidhughes.org
Twitter: @DavidHughesYDH

BWLETIN RHIEINI PARENTS' BULLETIN

TYMOR YR HAF/SUMMER TERM
2016

RHAI DYDDIADAU PWYSIG

SOME IMPORTANT DATES

Dydd Mawrth/Tuesday 19/04/2016	3.40pm	Noson Rhieni Blwyddyn 10. Year 10 Parents' Evening.
Dydd Mawrth/Tuesday 19/04/2016	4.00-5.30pm	Cyfle i rieni ddod i drafod unrhyw fater gyda'r Pennaeth. An opportunity for parents to discuss any matter with the Headteacher.
Dydd Mercher/Wednesday 27/04/2016 – Dydd Mawrth/Tuesday 10/05/2016		Cyfnod Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol National Literacy and Numeracy Tests – Blwyddyn/Year 7, 8 + 9
Dydd Llun/Monday 02/05/2016		Calan Mai – Gŵyl Banc May Day – Bank Holiday
13/05/2016 – 29/06/2016		Arholiadau allanol TGAU, UG ac A2. External examinations – GCSE, AS and A2 exams.
Dyddiad i'w benodi Date to be announced		Seremoni Cyflwyno Ffeil Cynnydd Blwyddyn 11 Year 11 Progress Files Presentation Ceremony
30/05/2016 – 03/06/2016		Gwyliau Hanner Tymor Half Term Holidays
Dydd Mercher/Wednesday 22/06/2016	5.30pm	Cyfarfod i rieni Blwyddyn 12 i drafod mynediad i addysg uwch. Meeting for Year 12 parents to discuss entry into higher education.
Dydd Llun/Monday 27/06/2016		Mabolgampau'r ysgol. School Sports Day.
Dydd Gwener/Friday 01/07/2016		Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd - NI FYDD YSGOL I'R DISGYBLION Training Day for teachers - NO SCHOOL FOR PUPILS
04/07/2016 – 15/07/2016		Cyfnod Profiad Gwaith Blwyddyn 10. Year 10 Work Experience period.
11/07/2016 – 15/07/2016		Cyfnod Profiad Gwaith Blwyddyn 12. Year 12 Work Experience period.
Dydd Mercher/Wednesday 20/07/2016	3.20pm	Yr ysgol yn cau am wyliau'r haf. School closes for the summer holidays.
Dydd Iau/Thursday 18/08/2016		Cyhoeddi Canlyniadau Arholiadau Lefel A/UG AS/A Level Examination Results published
Dydd Iau/Thursday 25/08/2016		Cyhoeddi Canlyniadau Arholiadau TGAU GCSE Examinations Results published

ARHOLIADAU

ARHOLIADAU ALLANOL

Mae myfyrwyr **Blynnyddoedd 10, 11, 12 a 13** yn brysur yn paratoi ar gyfer arholiadau allanol a fydd yn dechrau ym mis **Mai**. Bydd pob myfyriwr yn cael copi o'i amserlen bersonol a chyfarwyddiadau ynglŷn â'r arholiadau. Mae'n bwysig bod y myfyrwyr yn gyfarwydd â'u hamserlen a bod yr offer cywir (cyfrifiannell ayyb) gan ddynt ar gyfer pob arholiad. Disgwylir presenoldeb llawn hyd at yr arholiadau neu fe fydd y myfyrwyr yn colli gwersi pwysig a gwybodaeth hanfodol ynglŷn â'r arholiadau. Os bydd eich mab/merch yn absennol ar fore'r arholiad oherwydd salwch, dylid cysylltu â'r ysgol cyn 8.30 am. Mae'n bwysig cyflwyno nodyn gan y meddyg yn egluro'r absenoldeb.

Dymunwn yn dda iddynt yn ystod y cyfnod hollbwysig hwn.

BLWYDDYN 12 – ARHOLIADAU UG

Bydd myfyrwyr Blwyddyn 12 yn sefyll arholiadau allanol UG ym mis Mai/Mehefin. Caniateir iddynt aros gartref i astudio ar ôl **dydd Gwener, 13 Mai 2016** ond bydd disgwyl iddynt ddychwelyd i'w gwersi ar **ddydd Llun, 13 Mehefin 2016**. (Llythyr gyda manylion i ddilyn yn fuan.) Mae presenoldeb llawn yn angenrheidiol os am ddychwelyd i'r ysgol y flwyddyn nesaf.

FFÔN SYMUDOL A CHWARAEWYR CERDDORIAETH/MP3PERSONOL

Gofynnwn i chi ein helpu i sicrhau nad yw disgyblion yn dod â'r eitemau hyn i'r ysgol, os gwelwch yn dda.

FFÔN SYMUDOL

Fel yr ydych yn ymwybodol, **ni ddylai disgyblion ddod â ffonau symudol i'r ysgol**. Mae gan y byrddau arholi reolau llym a byddant yn dileu marciau'r disgybl os byddant yn cael eu dal gyda ffôn yn eu meddiant mewn arholiadau. Rydym hefyd wedi cael enghreifftiau o ffonau yn amharu ar wersi, disgyblion yn tynnu lluniau gyda chamera ar y ffôn heb ganiatâd y person hwnnw, disgyblion yn anfon negeseuon amharchus i'w gilydd ayyb.

Ni fydd yr ysgol yn cymryd cyfrifoldeb am ffonau symudol, chwaraewyr MP3/iPods sydd wedi eu cymryd oddi ar ddisgyblion.

Os bydd ar ddisgybl angen defnyddio ffôn yn ystod y dydd, dylai fynd i weld un o'r Dirprwy Benaethiaid.

CHWARAEWYR CERDDORIAETH PERSONOL/CAMERÂU

Ni chaniateir i ddisgyblion ddod â chwaraewyr cerddoriaeth na chamerâu i'r ysgol. Maent yn peri risg o safbwyt iechyd a diogelwch.

Os bydd disgybl yn gwrthod cadw at y rheol yna bydd rhaid i staff gadw'r peiriant a chysylltu â'r rhieni.

Diolch am eich cydweithrediad.

EXAMINATIONS

EXTERNAL EXAMINATIONS

Years 10, 11, 12 and 13 students are busy preparing for external examinations, which begin in **May**. Every student will receive a personal timetable and instructions concerning the examinations. It is essential that students ensure that they are fully familiar with their timetable and that they have the correct equipment (calculator etc) for each exam. Full attendance is expected up to the examinations or students will miss important lessons and essential information concerning the examinations. If your son/daughter is absent on the morning of an exam due to illness, please contact the school before 8.30 am. A doctor's note explaining the absence must be presented.

We wish them well during this very important time.

YEAR 12 – AS EXAMINATIONS

Year 12 students will be taking external AS examinations in May/June. They will be allowed to revise at home after **Friday, 13 May 2016** but will then be expected back in their lessons on **Monday, 13 June 2016**. (Letter with details to follow shortly.) Attendance is essential if a return to school is envisaged next year.

MOBILE PHONES AND PERSONAL MUSIC/MP3PLAYERS

Please help us ensure that pupils do not bring these items to school.

MOBILE PHONES

As you are aware, **mobile phones should not be brought into school**. The examination boards have strict rules and pupils will not receive any marks for the paper or, in some cases, the whole series of examinations if they take a mobile phone into an examination room. We have also had a number of examples of phones disrupting lessons, pupils taking unauthorised photographs of others and the sending of malicious, disrespectful text messages etc. **The school takes no responsibility for mobile phones, mp3 players/iPods that have been confiscated from pupils.**

Any pupil requiring access to a phone during the day should see one of the Deputy Headteachers.

PERSONAL MUSIC PLAYERS/CAMERAS

Pupils are not permitted to bring music/MP3 players or cameras into school. These items present a health and safety risk.

If this rule is not adhered to then staff will confiscate the item and contact the parents.

Thank you for your co-operation.

CINIO YSGOL AM DDIM/GRANT GWISG YSGOL

Rydym yn awyddus i sicrhau bod rhieni'n gallu hawlio'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt; ee mae grantiau ar gael gan y Cyngor Sir i ddarparu cinio am ddim i rai disgylion ac i gynorthwyo rhieni i brynu gwisg ysgol.

CINIO YSGOL AM DDIM

Efallai bod eich plentyn yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim os ydych yn derbyn un o'r isod:

- Cymorth Incwm
- Lwfans Chwilio am Waith (Seiliedig ar incwm)
- Credyd Treth Plant (yn unig)
- Gwarant Credyd Pensiwn

GRANT GWISG YSGOL

Mae'n bosib fod gennych hawl i gael grant gwisg ysgol i'ch plentyn os ydych yn derbyn un o'r canlynol:

- Cymorth Incwm
- Lwfans Chwilio am Waith (Seiliedig ar Incwm)
- Lwfans Rhiant Gweddw
- Credyd Treth Plant (yn unig)

Cofiwch fod angen adnewyddu eich cais yn flynyddol. Os na fyddwch yn gwneud cais cyn diwedd y tymor, bydd disgwyl i chi dalu am wisg ysgol/cinio eich plentyn o ddechrau'r tymor.

Mae ffurflenni cais ar gael yn nerbynfa'r ysgol.

GWISG YSGOL

BLYNYDDOEDD 7 - 11

Trowsus neu sgert ddu (at y pen-glin) heb unrhyw addurn ee ffrils, taslau ayyb. Crys chwys du gyda logo'r ysgol a chrys polo gwyn gyda logo'r ysgol. I ddisgyblion Blwyddyn 10/11 mae crys polo piws gyda logo'r ysgol yn ddewisol. Bydd angen cot ysgol dywyll yn ystod tywydd oer/gwlyb. Rydym yn gofyn i ddisgyblion wisgo **esgidiau du (footwear)**. **Ni chaniateir i ddisgyblion wisgo menyg o fewn adeilad yr ysgol.**

BLYNYDDOEDD 12 - 13

Disgwylir i'r myfyrwyr wisgo trowsus neu sgert **blaen** ddu (at y pen-glin), crys gwyn gyda siwmper gwddw v ddu gyda logo Blwyddyn 12/13 Ysgol David Hughes a thei swyddogol Ysgol David Hughes. Rydym yn gofyn i fyfyrwyr wisgo **esgidiau du (footwear)**. Bydd angen cot ysgol dywyll yn ystod tywydd oer/gwlyb. Gofynnwn i fyfyrwyr gydymffurfio â'r wisg a sicrhau eu bod yn gosod esiampl dda i'r plant iau.

Gan ein bod yn teimlo ei bod hi'n bosibl cael nifer o amrywiadau oherwydd lliwiau'r ysgol dyma restr o'r pethau **na** fyddai'n dderbyniol. Efallai bydd angen ychwanegu at y rhestr ar sail profiad/ffasiwn.

- Jeans/Cords/Trowsus 'combat' neu 'cargo'/'leggings'/ Trowsusau tynn
- Siwmper/cardigan amryliw/streipiau
- Trac wisg (top na gwaelod)
- Capiau o unrhyw fath
- Hoodies na thopiau fleece
- Siacedi ee denim neu liw golau
- Esgidiau uchel ac esgidiau gyda logos neu farciau o unrhyw liw ag eithrio du
- Sgert fer
- Trainers ee converse/esgidiau 'dolly'/plimsolls

Nid yw'r ysgol yn cymeradwyo'r defnydd o golur, ond o'i wisgo disgwylir y defnydd ohono fod yn gynnil.

FREE SCHOOL MEALS/SCHOOL UNIFORM GRANT

We would like to ensure that parents are able to claim the financial support available to them; eg the County Council provides grants for free school meals for some pupils and to help parents buy school uniform.

FREE SCHOOL MEALS

Your child could be entitled to free school meals if you are in receipt of one of the following:

- Income Support
- Job Seekers Allowance (Income Based)
- Child Tax Credit (Only)
- Guarantee element of State Pension Credit.

SCHOOL UNIFORM GRANT

You may be entitled to a grant towards your child's school uniform if you receive any of the following:

- Income Support
- Job Seekers Allowance (Income Based)
- Widowed Parent's Allowance
- Child Tax Credit (only)

Please note – you need to renew your application annually. If no application has been received from you by the end of term, you will be expected to pay for your child's school uniform/meals from the beginning of term.

Application forms for free meals are available from the school's reception.

SCHOOL UNIFORM

YEARS 7 - 11

Plain black skirt (knee length) or trousers, eg without frills, tassels etc. Black sweatshirt with the school logo and white polo shirt with the school logo. For Years 10/11 pupils, the purple polo shirt with the school logo is optional. A 'dark' coloured coat will be necessary during wet and/or cold weather. We request that pupils wear **black footwear**. **Pupils are not permitted to wear gloves inside the school building.**

YEARS 12 - 13

The students are asked to wear **plain** black trousers or skirts (knee length), white shirt, V-neck jumper with Year 12/13 Ysgol David Hughes logo and official Ysgol David Hughes tie. We request that students wear **black footwear**. A 'dark' coloured coat will be necessary during wet and/or cold weather. We ask students to conform to this dress code and it is important that they set a good example to younger pupils.

Due to the nature of the school uniform we sometimes find a number of variations. Here is a list of items, which are **not** acceptable. The list is not exhaustive and we reserve the right to extend the list based on experience/fashion.

- Jeans/Cords/Combat or cargo trousers/leggings/skintight trousers
- Jumpers/cardigans/multicoloured or striped tops
- Track suit (neither top nor bottom)
- Caps of any sort
- Hoodies or fleece tops
- Jackets eg denim, light coloured
- High-heeled shoes or shoes with logos, any colouring apart from black
- Short skirts
- Trainers eg converse/dolly shoes/plimsolls

The school does not endorse the use of makeup in school, however, if it is worn it should be sparingly applied.

ESGIDIAU YSGOL / SCHOOL SHOES

Mae'r rheolau ynghylch gwisg ysgol yn datgan yn glir y dylai'r holl ddisgyblion wisgo esgidiau **UNLLIW DU**. Ni chaniateir esgidiau sydd â streipiau, logos, neu unrhyw rannau gwyn neu liw arall. Gofynnir am eich cydweithrediad i sicrhau cysondeb ynghylch y mater hwn os gwelwch yn dda.

*The school rules regarding uniform state clearly that the pupils should wear **BLACK FOOTWEAR**. Shoes with stripes, logos, laces or any other parts which are white or any other colour which is not black do not meet with this expectation. We would very much appreciate your co-operation regarding this matter.*

ADDAS / SUITABLE



ANADDAS / NOT SUITABLE



CERBYDAU MYFWRWYR BLWYDDYN 12/13

Cerbydau Myfyrwyr:

Rhaid i fyfwrwyr wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i barcio ar dir yr ysgol.

Rhoddir cerdyn 'Hawl Parcio' (Parking Permit) a dylid arddangos y cerdyn yn ffenest flaan y car.

Bydd gan yr ysgol hawl i wrthod caniatâd neu i ddiddymu caniatâd os yw myfyrwyr yn gyrru mewn ffordd anghyfrifol ar dir yr ysgol.

Cerbydau ar Safle'r Ysgol – Rheolau

Caniateir i fyfwrwyr Blwyddyn 12+13 barcio eu ceir/cerbydau yn y maes parcio wrth y Ganolfan Hamdden dan yr amodau isod:

1. Mae'n rhaid cofrestru rhif y cerbyd ac enw'r gyrrwr gyda'r ysgol os am barcio ar dir yr ysgol. Er mwyn sicrhau tocyn parcio bydd angen dangos trwydded yrru gyfredol, prawf o yswiriant, a Thystysgrif Cofrestru Cerbyd (V5C).
2. Gellir parcio yn y maes parcio wrth y Ganolfan Hamdden, yn unig, rhwng 8.00am a 5.00pm.
3. Ni chaniateir i unrhyw gerbyd symud o'r maes parcio rhwng 8.45am a 3.30pm, ag eithro cyfnodau 'cytundeb' neu mewn argyfwng. Bydd yn rhaid trafod eithriadau i'r rheol hon gyda'r Pennaeth neu Bennaeth Blwyddyn.
4. Ni chaniateir gadael tir yr ysgol mewn cerbyd:-
 - yn ystod amser egwyl,
 - yn ystod amser cinio,
 - pan fydd y bysiau ar dir yr ysgol.
5. Mae'r ysgol yn safle risg uchel ac mae angen gyrru yn araf ac yn ofalus iawn ar y safle.

STUDENT VEHICLES - YEAR 12/13

Student Vehicles:

Students must make a written application to park on the school grounds.

A 'Parking Permit' will be given and this should be visible on the car windscreen.

The school has the right to refuse permission or to cancel permission if a student drives in an inappropriate manner on the school grounds.

Vehicles on the School Grounds – Rules

Year 12+13 students will be permitted to park their vehicles in the Sports Centre Car Park provided the following conditions are met:-

1. The vehicle and designated driver must be registered with the school if parking is to be permitted. In order to ensure a parking permit the following documents will need to be seen – current driving licence, proof of insurance and a Vehicle Registration Certificate (V5C).
2. Vehicles can be parked in the Sports Centre Car Park, only, between 8.00am and 5.00pm.
3. No vehicle is to be moved from the car park between 8.45am and 3.30pm. The only exceptions will be at agreed 'contract' periods or during an emergency. Any exceptions to this rule must be discussed with the Headteacher or Head of Year.
4. No vehicle is to leave the school grounds:-
 - during break time
 - during lunch time
 - when buses are on the school site.
5. The school site is a high risk area and vehicles must be driven slowly and very carefully whilst on site.

LABELU EIDDO	LABELLING PROPERTY
Gofynnwn i rieni sicrhau bod enwau eich plant ar eu gwisg ysgol, cotiau a bagiau. Os yw eich plentyn wedi colli eiddo, dylid holi yn y Dderbynfa, rhag ofn bod rhywun wedi dod o hyd i'r eitem ac wedi ei dychwelyd.	Could parents please ensure that your child's name is clearly labelled on their school uniform, coat and bag? If your child has lost any item of property, please check to see if it has been handed in at the school's Reception.
Os na fydd eitemau coll wedi eu casglu erbyn diwedd Ebrill, yna ni fydd dewis ond cael gwared â'r eitemau.	If lost items are not collected by the end of April, then they will be disposed of.

SBWRIEL	LITTER
Gofynnwn i ddisgyblion ein helpu i gadw safle'r ysgol yn daclus a diogel drwy beidio â gollwng sbwriel. Mae nifer o finiau wedi eu gosod o gwmpas yr ysgol.	We ask pupils to help us keep the school site tidy and safe by not dropping litter. A number of bins are provided around the school.
AILGYLCHU Er mwyn ceisio lleihau ar sbwriel a gwastraff, mae'r ysgol yn ceisio ailgylchu cymaint o bapur a photeli plastig â phosib. Ceir bocsys ailgylchu pwrrpasol yn yr ystafelloedd dosbarth a'r swyddfeydd.	RECYCLING In order to reduce litter and waste, the school is making an effort to recycle paper and plastic bottles. Recycling boxes are located in the classrooms and offices for this purpose.

GADAEL TIR YR YSGOL

Nid ydym yn caniatáu i ddisgyblion Blynnyddoedd 7-11adael tir yr ysgol yn ystod yr egwyl foreol.
Dim ond Blynnyddoedd 10/11/12/13 sy'n cael mynd allan amser cinio gyda chaniatâd rhieni.
Nid oes caniatâd i'r disgyblion adael tir yr ysgol ar ôl i'r bysiau eu gollwng wrth yr adeilad yn y bore.

LEAVING THE SCHOOL GROUNDS

Pupils in Years 7-11 are not allowed to leave the school grounds during the morning break.
Only Year 10/11/12/13 pupils are allowed outside of the school grounds at lunch time and only if they have parental consent.
Pupils do not have permission to leave the school grounds once they have been dropped off by the buses first thing in the morning.

YSGOL DDI-FWG

Hoffwn eich atgoffa bod ardaloedd y tu mewn a thu allan yr ysgol yn rhai di-fwg. Ni chaniateir ysmygu ar fws mini'r ysgol nac ar y bysiau ysgol 'chwaith. Mae ysmygu yn y mannau hyn bellach yn erbyn y gyfraith a byddwn yn cysylltu â rhieni os bydd disgyblion yn cael eu dal yn ysmygu.

SMOKE-FREE SCHOOL

We would like to remind you that smoking is prohibited within the school building and on the school grounds. Smoking is not permitted on the school minibus or school buses either. Smoking in these areas is now against the law. If pupils are caught smoking, the school will contact their parents.

AMDDIFFYN RHAG YR HAUL

Yn y blynnyddoedd diwethaf mae achosion o ganser y croen wedi cynyddu'n gyson. Gormod o olau haul ar y croen yw prif achos y math hwn o ganser.

Yn ystod Tymor yr Haf, mae'n debygol y bydd eich plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, ee mabolgampau'r ysgol a gweithgareddau awyr agored a drefnir gan wahanol adrannau. Rydym eisiau i'r disgyblion fwynhau'r haul yn ddiogel, felly **gofynnwn i chi sicrhau bod gan eich plentyn amddiffyniad priodol rhag yr haul yn ystod tywydd poeth.**

Mae mwy o wybodaeth am amddiffyn rhag yr haul a chanser y croen ar gael ar wefan Cancer Research UK: www.sunsmart.org.uk

SUN PROTECTION

Cases of skin cancer have increased steadily over recent years. Over-exposure to sunlight is the main cause of this type of cancer.

During the Summer Term, it is likely that your child will be participating in outdoor activities, eg school sports day and outdoor activities organised by various departments.

We want the pupils to enjoy the sun safely and therefore ask you to **ensure that your child has suitable sun protection during hot weather.**

More information on sun protection and skin cancer is available on the Cancer Research UK website: www.sunsmart.org.uk

YR ADRAN DECHNOLEG

Taith Addysgiadol, Paris ac Eurodisney – Hanner Tymor Chwefror 2017

Mae'r adran Dechnoleg am gynnig taith addysgol unwaith eto i flynyddoedd 10 a 11 sydd yn dilyn (neu ar fin dilyn) cyrsiau Arlwyd, Bwyd a Maeth, Dylunio a Thechnoleg a Thecstilau. Bydd llythyr yn mynd allan yr hanner tymor hwn a gobeithir casglu'r blaendal o £85 erbyn dydd Gwener, Mai 6ed.

Cawsom lawer o brofiadau gwych ar y daith eleni a chyfle i ddisgyblion gael profiad byd real o'r pynciau mewn cyd-destun cyffrous ac unigryw, sef Parc Disney ym Mharis. Gobeithio y caiff y daith eich cefnogaeth.

Os bydd unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r trefniadau mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol.

Cyfrif Trydar yr Adran

@DT_YDH

TECHNOLOGY DEPARTMENT

Educational Visit, Paris and Eurodisney – February 2017 Half Term

The Technology department is organising an educational visit again this year to years 10 and 11 who are following (or are about to start on) courses in Catering, Food and Nutrition, Design and Technology and Textiles. A letter will be sent out this half term and we hope to collect a deposit of £85 by

Friday, May 6th.

We had many excellent experiences on the visit this year and opportunities for pupils to experience the subjects in a real environment and in an exciting and unique context, namely in Disneyland, Paris. We hope you will support the visit.

Should you have any questions regarding the arrangements, please do not hesitate to contact the school.

Department's Twitter Account

@DT_YDH

TYMOR Y GWANWYN / SPRING TERM

2015/2016

DIGWYDDIADAU / EVENTS

Daeth nifer o siaradwyr gwadd i'r ysgol ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 12+13:

- Menter Fachwen
- Hosbis Dewi Sant
- Ambiwlans Awyr Cymru
- Rhonwch Waed
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cymunedau'n Gyntaf Môn
- Mr Irfon Williams, Iechyd Meddwl

Casglwyd arian ar gyfer yr elusen Achub y Plant trwy gynnal diwrnod gwisgo Siwmpwr, Het neu Glustdlysau Nadolig cyn gwyliau'r Nadolig. Hefyd, cynhaliwyd Ras Hwyl Siôn Corn noddodig ar yr un diwrnod, a'r arian yn cael ei gasglu ar gyfer elusen Gafael Llaw ac Adran Addysg Gorfforol yr ysgol.

Casglwyd stampiau wedi'u defnyddio ar ran Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru yn ystod Rhagfyr. Bydd yr ysgol yn parhau i'w casglu drwy gydol y flwyddyn.

Cafwyd cynhyrchiadau leithoedd Modern i ddisgyblion Blwyddyn 8, 9+10 sy'n astudio Almaeneg yn yr ysgol.

Cymerodd rhai ddisgyblion Blwyddyn 10 ran mewn cystadleuaeth arlwoyo Caterlink yn ddiweddar.

Mae grŵp o ddarpar athrawon o Brifysgolion Bangor ac Aberystwyth wedi cychwyn ar eu cyfnod ymarfer dysgu gyda ni.

Bu Technocamps (Prifysgol Bangor) yn cynnal sesiwn 'Rhaglennu drwy Minecraft ar y Raspberry pi' gyda rhai myfyrwyr Blwyddyn 12 yn yr ysgol.

Cynhaliwyd gwasanaethau Gŵyl Ddewi i ddisgyblion Blwyddyn 7+8. Fel rhan o'r dathliadau, bu disgyblion yn talu dirwy am wisgo top coch, gwerthwyd cacennau amser egwyl, cynhaliwyd cwis amser cinio a bu myfyrwyr o Flynyddoedd 12 a 13 yn gwerthu cennin Pedr yn yr ysgol, ar ran elusen canser Marie Curie.

Cynhaliwyd hyfforddiant 'Get Set' i lysgenhadon chwaraeon yr ysgol yn ddiweddar.

Cynhaliwyd gweithdy Meddwl am Iechyd Meddwl gan CAMHS i ddisgyblion Blwyddyn 9 yn yr ysgol.

Cynhaliwyd noson gwis lwyddiannus i Flwyddyn 12+13 a staff yn ddiweddar. Diolch i gwmni Ribride am y wobr.

Gwerthwyd cywion wyau Pasg yr NSPCC gan gasglu £70 gan fyfyrwyr Blwyddyn 12+13.

Mae unigolion a thimau'r ysgol wedi bod yn cymryd rhan mewn sawl gêm/cystadleuaeth, e.e. Cystadleuaeth Draws Gwlad Ynys Môn, Cystadleuaeth Draws Gwlad Eryri, Pencampwriaeth Draws Gwlad Ysgolion Cymru, Twrnament Hoci Môn/Arfon, Twrnament Hoci Eryri, Twrnament Pêl-rwyd Môn, Twrnament Pêl-rwyd Eryri, Twrnament Pêl-rwyd yr Urdd, Athletau Dan Do Môn a Thwrnament Pêl-fasged.

A number of guest speakers visited the school for Year 12+13 students:

- Menter Fachwen
- St David's Hospice
- Wales Air Ambulance
- Give Blood
- Isle of Anglesey County Council
- Môn Communities First
- Mr Irfon Williams, Mental Health

Money was raised for the charity Save the Children by holding a wear your Christmas Jumper, Hat or earrings day before the holidays. Also, a sponsored Santa Fun Run was arranged the same day, with money raised for the Gafael Llaw charity and the school's PE Department.

Used postage stamps were collected on behalf of The North Wales Society for the Blind during December. The school will continue to collect during the year.

Modern Languages productions were performed to Year 8,9+10 pupils who study German at the school.

Some Year 10 pupils took part in a Caterlink catering competition recently.

A group of trainee teachers from Bangor and Aberystwyth Universities have begun their teaching practice with us.

Technocamps (Bangor University) held a 'Programming through Minecraft on Raspberry Pi' session at the school for some Year 12 students.

St David's Day services were held for pupils in Years 7+8. As part of the celebrations, pupils paid a fine for wearing a red top, cakes were sold at break time, a quiz was held at lunch time and Year 12 and 13 students sold daffodils in school, on behalf of the Marie Curie Cancer Charity.

'Get Set' training was held for the school's sports ambassadors recently,

A Mental Health Matters workshop by CAMHS was organised for Year 9 pupils at the school.

A successful quiz night for Year 12+13 and staff was held recently. Thanks to Ribride for the prize.

NSPCC Easter chicks were sold by Year 12+13 students and £70 was raised.

Individuals and school teams have been participating in a number of games/competitions, eg Anglesey Cross Country Competition, Eryri Cross Country Competition, Welsh Cross Country Championship, Anglesey/Arfon Hockey Tournament, Anglesey Netball Tournament, Eryri Netball Tournament, Urdd Netball Tournament, Eryri Hockey Tournament, Anglesey Indoor Athletics and a Basketball Tournament.

<p>Cynhaliwyd nosweithiau rhieni ar gyfer Blwyddyn 9, 11, 12 ac 13.</p>	<p>Parents' Evenings were held for Years 9, 11, 12 and 13.</p>
<p>Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant dalgylch ar gyfer staff ar 12 Chwefror 2016.</p>	<p>12 February 2016 was a catchment training day for staff.</p>
<p>Cynhaliwyd arholiadau mewnol ar gyfer disgylion Blwyddyn 10.</p>	<p>Year 10 internal examinations were held.</p>
<p>Cafwyd cyflwyniad ar faterion ariannol i Flwyddyn 13 gan Phil Lynes o Gyllid Myfyrwyr Cymru (Student Finance Wales).</p>	<p>A presentation on financial matters was given to Year 13 by Phil Lynes from Student Finance Wales.</p>
<p>Cynhaliwyd cyfarfod gyda rhieni disgylion Blwyddyn 9 i rannu gwybodaeth am Opsiynau 14+.</p>	<p>A meeting was held at the school for parents of Year 9 pupils, in order to share information about Post 14 Options.</p>
<p>Bu rhai disgylion Blwyddyn 9 yn ymweld â Choleg Menai, safle Llangefni a Bangor ar gyfer sesiynau blasu cyrsiau galwedigaethol Lefel 1/2.</p>	<p>Some Year 9 pupils visited Coleg Menai, Llangefni and Bangor sites for Level 1/2 Vocational Courses Taster Sessions.</p>
<p>Cynhaliwyd 'Ffair Bynciau' i ddisgylion Blwyddyn 11 yng Nghanolfan y 6ed gyda disgylion presennol y Chweched yn rhannu gwybodaeth a'u profiadau fel rhan o weithgareddau 'Wythnos Dychwelyd i'r 6ed'.</p>	<p>An 'Options Fair' was held for Year 11 pupils in the 6th Form centre with existing 6th Form students sharing information and their experiences as part of the 'Return to the 6th Form week' activities.</p>
<p>Cynhaliwyd cyfarfodydd Cyngorau Blwyddyn ac Ysgol Gyfan y disgylion yn ystod Tymor y Gwanwyn.</p>	<p>Meetings of the pupils' Year Councils and Whole School Councils were held during the Spring Term.</p>
<p>Bu rhai disgylion Blwyddyn 9 yn ymweld ag Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch ar gyfer sesiwn blasu cwrs Adeiladwaith Lefel 2.</p>	<p>Some Year 9 pupils visited Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch for Level 2 Construction courses taster session.</p>
<p>Cynhaliwyd bore coffi gan y Chweched er budd Sefydliad Prydeinig y Galon. Codwyd £195.</p>	<p>The Sixth Form held a coffee morning in aid of the British Heart Foundation. £195 was raised.</p>
<p>Dosbarthwyd adroddiadau disgylion Blynnyddoedd 9-13 yn ystod y tymor, er mwyn darparu gwybodaeth i reni a disgylion, ac i alluogi'r ysgol i ymateb i unrhyw arwyddion o dangyflawni.</p>	<p>Pupils in Years 9-13 received a report during this term, to provide information for parents and pupils and to enable the school to respond to any signs of underachievement.</p>
<p>Cynhaliwyd arholiadau allanol amrywiol yn ystod y tymor ee Lefel Mynediad, Arlwyd TGau, Celf TGau, arholiadau ymarferol Cerdd a Drama ac arholiadau llafar.</p>	<p>Various external examinations were held during this term, eg Entry Level, GCSE Catering, GCSE Art, Music and Drama practical exams and oral exams.</p>
<p>Mae clwb astudio'n cael ei gynnal ar ôl ysgol ar gyfer rai disgylion Blwyddyn 11 sydd angen gweithio ar eu gwaith cwrs neu waith cartref a pharatoi ar gyfer eu harholiadau.</p>	<p>Some pupils in Year 11 have been attending an after-school study club where they can work on coursework or homework and prepare for their exams.</p>
<p>Bu rhai myfyrwyr Blwyddyn 12 yn beirniadu yn Eisteddfod Ysgol Y Borth.</p>	<p>Some Year 12 students were adjudicators at Ysgol y Borth's Eisteddfod.</p>
<p>Bu rhai myfyrwyr Blwyddyn 12 yn stiwardio yn Eisteddfod Cylch yr Urdd.</p>	<p>Some Year 12 students were stewards at the regional Urdd Eisteddfod.</p>
<p>Cynhaliwyd cyfarfodydd Fforwm 'Llais Ni' yn ystod Tymor y Gwanwyn.</p>	<p>Meetings of the 'Llais Ni' Forum were held during the Spring Term.</p>
<p>Fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr ar 3 Mawrth, dosbarthwyd tocyn llyfr gwerth £1 i bob disgyl. Trefnwyd amryw o weithgareddau a chystadlaethau i ddisgylion Blwyddyn 7 + 8 .</p>	<p>As part of the World Book Day celebrations on 3 March, all pupils received a £1 book token. Various activities and competitions were organised for Years 7 + 8 pupils.</p>
<p>Daeth cynrychiolwyr o'r elusen 'Choose Life' i'r ysgol i gynnal gweithgareddau atal troseddu gyda disgylion Blwyddyn 9.</p>	<p>Representatives from the charity 'Choose Life' held crime prevention activities at the school for Year 9 pupils.</p>
<p>Yn dilyn diwrnod di-wisg a thaith noddedig cerdded yr Wyddfa, mae'r ysgol wedi prynu 2 diffibrilydd i'w lleoli yn yr ysgol a'r neuadd chwaraeon.</p>	<p>Following a non-uniform day and a sponsored walk up Snowdon, the school has purchased 2 defibrillators to be located in the school and sports hall.</p>

Cynhaliwyd cyfarfodydd Is-bwylgorau SNAG/ECO/Dysgu ac Addysgu/Cymuned a Chwaraeon yn ystod Tymor y Gwanwyn.

Meetings of the SNAG/ECO/Learning and Teaching/Community and Sports Sub-committees were held during the Spring Term.

YMWELIADAU ADDYSGOL / EDUCATIONAL VISITS

Aeth grŵp o fyfyrwyr Blwyddyn 12 sy'n astudio Addysg Grefyddol i ymweld â chanolfan Fwdhaidd a synagog ym Manceinion.

Bu grŵp bach o ddisgyblion sydd ar Grwp ECO yn ymweld â'r Ganolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth.

Bu rhai o ddisgyblion Blwyddyn 8 + 9 ar gwers Sgio i Alpe D'Huez yn Ffrainc am wythnos ym mis Ionawr.

Bu criw bach o fyfyrwyr Blwyddyn 12 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth cemeg 'Top of the Bench**' yn yr Adran Gemeg ym Mhrifysgol Bangor ddiwedd Ionawr.**

Bu rhai disgyblion Blwyddyn 11 yn cymryd rhan mewn **Gweithdy coleau Rhydychen Caergrawnt yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn ddiweddar.**

Aeth grŵp o fyfyrwyr Blwyddyn 12+13 sy'n astudio Seicoleg a'r Gyfraith i ymweld â chynhadledd 'Crimiknowledge' ym Manceinion.

Cymerodd grŵp bach o ddisgyblion Blwyddyn 11 a 12 ran mewn gweithgaredd 'Golwg ar Iechyd**' yn Llanrwst.**

Bu criw o ddisgyblion Blwyddyn 11 ar **dath lenyddol Gymraeg o amgylch Meirionydd.**

Ymwelodd disgyblion Blwyddyn 9 â **Chanolfan Holocaust Beth Shalom yn Laxton, Swydd Nottingham.**

Bu criw o ddisgyblion Blwyddyn 8 yn mynchu gweithgareddau **Datblygiad Cynaliadwy a China yng Ngholeg Menai yn ddiweddar.**

Bu rhai myfyrwyr Blwyddyn 12 yn ymweld â chwmni 'Amdro**' yng Nghaernarfon yn ddiweddar, i weld peiriannau 'CAD/CAM' yn y gweithle.**

Bu myfyrwyr sy'n astudio Saesneg ym Mlwyddyn 13 yn ymweld â **Dove Cottage a'r **Wordsworth Trust** yn Grasmere.**

Bu grŵp o fyfyrwyr Blwyddyn 12 yn cymryd rhan mewn **Prosiect 'Profi' sydd yn cael ei drefnu gan Pontio.**

Bu grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 10+11 sy'n astudio **Arlwydeth, Tecstiliau a Thechnoleg yn ymweld â **pharc Eurodisney a Paris** yn ddiweddar.**

Bu dau ddisgybl Blwyddyn 12 yn cymryd rhan mewn **Gweithdy coleau Rhydychen Caergrawnt yn Ysgol Friars yn ddiweddar.**

Aeth grŵp o fyfyrwyr Blwyddyn 12+13 sy'n astudio Cymdeithaseg i ddarllith a sesiynau ymchwilio ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar.

Mynychodd grŵp bach o ddisgyblion Blwyddyn 8 ddiwrnod hyfforddi 'Disgyblion yn Llysgenhadon Iaith**' yn Venue Cymru, Llandudno.**

A group of Year 12 Religious Education students visited a Buddhist centre and a synagogue in **Manchester.**

A small group of pupils who are on the Eco Group visited the **Centre for Alternative Technology in Machynlleth.**

Some Year 8+9 pupils went on a **skiing course to Alpe D'Huez in **France** for a week in January.**

A small group of Year 12 students took part in a chemistry competition 'Top of the Bench**' at the Chemistry Department, at **Bangor University** at the end of January.**

Some Year 11 pupils took part in an **Oxford Cambridge colleges workshop recently at Ysgol Uwchradd Caergybi.**

A group of Year 12+13 Psychology and Law students attended a 'Crimiknowledge' Conference in **Manchester.**

A small group of pupils from Year 11 and 12 participated in a 'Focus on Health**' activity in Llanrwst.**

A group of Year 11 pupils went on a Welsh **literary tour around Meirionydd.**

Year 9 pupils visited the **Beth Shalom Holocaust Centre in Laxton, Nottinghamshire.**

A group of Year 8 pupils attended a **Sustainable Development and China activities at Coleg Menai recently.**

Some Year 12 students visited 'Amdro**' company in Caernarfon recently for an insight on 'CAD/CAM' equipment in the workplace.**

Students studying English in Year 13 visited **Dove Cottage and the **Wordsworth Trust**, Grasmere.**

A group of Year 12 students took part in the 'Profi**' project which is arranged by Pontio.**

A group of Year 10+11 pupils studying **Catering, Textiles and Technology visited **Eurodisney and Paris** recently.**

Two Year 12 pupils took part in an **Oxford Cambridge colleges workshop recently at Ysgol Friars.**

A group of Year 12+13 Sociology students attended a lecture and research sessions at Bangor University recently.

A small group of Year 8 pupils attended a 'Pupil Language Ambassador**' training day at Venue Cymru, Llandudno.**

B u grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 12 +13 sy'n astudio Celf yn ymweld ag Oriel Tate yn Lerpwl cyn y Pasg.	A group of Year 12 + 13 pupils studying Art visited the Tate Gallery in Liverpool before Easter.
B u genethod Blwyddyn 9 yn cymryd rhan mewn Gŵyl Chwaraeon i Ferched gydag ysgolion uwchradd eraill yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur, Llangefni cyn y Pasg.	Y ear 9 girls took part in a Games Festival for Girls along with other secondary schools at Plas Arthur Leisure Centre, Llangefni before Easter.
A eth rhai myfyrwyr Blwyddyn 13 sy'n astudio Addysg Grefyddol i ymweld â chymunedau Iddewig yn Llundain.	S ome Year 13 students who study Religious Education visited Jewish communities in London.
B u grŵp o fyfyrwyr o Blwyddyn 12+13 yn cymryd rhan mewn gweithgaredd STEM yn y Ffair 'Big Bang' yn Venue Cymru, Llandudno yn ddiweddar.	A group of Year 12+13 students took part in a STEM activity at the Big Bang Fair held at Venue Cymru, Llandudno recently.

LLWYDDIANAU / SUCCESSES

M ynychodd Morgan Taylor ac Elin Cheung Blwyddyn 11 gwrs ysgrifennu creadigol yng Nghanolfan Ty Newydd, Llanystumdwy drwy drefniant gyda Chlwb Rotari Bangor yn ddiweddar.	M organ Taylor and Elin Cheung in Year 11 attended a creative writing course at Ty Newydd Centre in Llanystumdwy recently arranged by Bangor Rotary Club.
L longyfarchiadau i rai disgyblion Blwyddyn 7-11 ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth Clogfeinio Ysgolion Uwchradd Gogledd Cymru yn ddiweddar. Daeth y timau bechgyn bl 7 ac 8, genethod bl 7 ac 8 a genethod bl 9,10,11 yn 2il a thîm bechgyn bl 9,10,11 yn gyntaf.	C ongratulations to some Year 9-11 pupils on their success at the North Wales Secondary Schools Bouldering competition recently. The Yr7+8 boys team, Yr 7+8 girls team and Yr9-11 girls team came 2nd and the Yr 9-11 boys team came first.
L longyfarchiadau i Cordia am ennill y gystadleuaeth Cân i Gymru 2016. Hefyd, am eu llwyddiant yn yr Wyl Ban Geltaidd yng Ngharlow, Iwerddon dros y Pasg.	C ongratulations to Cordia on winning the Cân i Gymru 2016 competition. Also, on their success at the Pan Celtic Festival in Carlow, Ireland over Easter.
C afwyd llwyddiant ym myd chwaraeon yn ystod tymor y Gwanwyn.	T eams and individuals celebrated success in various sports during the Spring term.
L longyfarchiadau i ddisgyblion yr ysgol am eu llwyddiannau yn Athletau dan Do Môn yn ddiweddar.	C ongratulations to pupils of the school on their success at the Anglesey Indoor Athletics competition.
B u amryw o ddisgyblion yn llwyddiannus yn Eisteddfod Sir yr Urdd , a byddant nawr yn cynrychioli'r sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Fflint ddiwedd Mai.	A number of pupils were successful in the County Urdd Eisteddfod , and will now represent the county at the Urdd's National Eisteddfod in Flint at the end of May.
L longyfarchiadau i Sinead Anderson-McGrath ar ennill gwobr teilyngdod i astudio Gwyddoniaeth Ceffylaidd ac Anifeiliaid ym Mhrifysgol Aberystwyth.	C ongratulations to Sinead Anderson-McGrath on winning a merit award to study Equine and Animal Science at Aberystwyth University.

ELUSENNAU A GEFNOGWYD / CHARITIES SUPPORTED

Elusennau a gefnogwyd yn ystod y tymor yma/Charities supported this term:

Achub y Plant/Save the Children - **£724.96**

Tŷ Gobaith/Hope House - **£96.57**

Age Concern Cymru - **£96.67**

British Heart Foundation - **£249.48**

Oxfam - **£201.18**

Awyr Las - **£575.61**

Cronfa Carwyn Edwards - **£740.38**

Gafael Llaw - **£1000**

Marie Curie Cancer Care (Apêl Cenin Pedr) - **£121.84**

CLWB CANT

ONE HUNDRED CLUB

Enillwyr Mis Ionawr 2016 / January 2016 Winners

Mr S J Mathews	3	£30.50
----------------	---	--------

Enillwyr Mis Chwefror 2016 / February 2016 Winners

Mr Andrew Roberts	1	£30.50
-------------------	---	--------

Enillwyr Mis Mawrth 2016 / March 2016 Winners

Mr Carl Shipton	42	£30.50
-----------------	----	--------

Enillwyr Mis Ebrill 2016 / April 2016 Winners

Mr Geraint Evans	24	£30.50
------------------	----	--------

Cafwyd llwyddiant arbennig mewn amrywiol gystadlaethau yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Bydd nifer o ddisgyblion yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol a'r sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Fflint, ddiwedd Mai.

Ysgol David Hughes was very successful in various competitions in the regional **Urdd Eisteddfod**. A number of pupils will now go on to represent the school and the county in the Urdd National Eisteddfod in Flint at the end of May.

Dyma'r canlyniadau/The results:	
Unawd Merched/Girls Solo Bl/Yr 7-9	3. Elin Evans
Unawd Bechgyn/Boys Solo Bl/Yr 7-9	3. Gareth Hughes
Deuwad/Duet Bl/Yr 7-9	2. Erin a Manw
Unawd Merched Bl 10 a dan 19 oed/ Girls Solo Yr 10 and under 19yrs old	1. Siwan Hedd Mason 2. Ffion Elin Davies
Deuwad Bl 10 a dan 19 oed/Duet Yr 10 and under 19yrs old	1. Siwan Hedd a Ffion Elin
Parti Merched/Girls' Party Bl/Yr 7-9	1. Parti Merched YDH
Ensemble Lleisiol/Vocal Ensemble Bl/Yr 7-9	1. Ensemble Ania
Ensemble Lleisiol Bl 10 a dan 19 oed/ Vocal Ensemble Yr 10 and under 19yrs old	1. Ensemble Ysgol David Hughes
Cyflwyno Alaw Werin Unigol/Folk Song Solo Bl/Yr 7-9	2. Lois Wiliam 3. Manw Lili Robin
Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl 10 a dan 19 oed/ Folk Song Solo Yr 10 and under 19yrs old	2. Siwan Hedd Mason
Unawd Chwythbrennau/Woodwind Solo Bl/Yr 7-9	1. Katie Wood 2. Lois Wiliam 3. Mared Jones
Unawd Gitâr/Guitar Solo Bl/Yr 7-9	1. Stephen Cowley
Unawd Piano/Piano Solo Bl/Yr 7-9	2. Gareth Hughes 3. Lois Wiliam
Unawd Pres/Brass Solo Bl/Yr 7-9	1. Erin Maloney 2. Ifan Wyn Erfyl Jones 3. Chloe Leanne Jones
Unawd Telyn/Harp Solo Bl/Yr 7-9	2. Catrin Powell Jones 3. Catrin Edith Parry
Ensemble Bl/Yr 7-9	1. Ensemble Erin 2. Ensemble Ysgol David Hughes 3. Ensemble Manon
Unawd Cerdd Dant Bl 7-9/ Cerdd Dant Yr 7-9	3. Manw Lili Robin
Deuawd Cerdd Dant Bl 9 ac iau/ Cerdd Dant Duet Yr 9 and younger	1. Ania ac Elin 2. Elin a Manw Lili
Triawd neu Bedwarawd Cerdd Dant Bl 10 a dan 19 oed/ Cerdd Dant Trio or Quartet Yr 10 and under 19yrs old	1. Triawd YDH
Parti Cerdd Dant/Cerdd Dant Party Bl/Yr 7-9	1. Ysgol David Hughes
Côr Cerdd Dant Bl 13 ac iau/ Cerdd Dant Choirs Yr 13 and younger	1. Ysgol David Hughes
Dawns Werin Unigol i Ferched Bl 9 ac iau/ Girls Solo Folk Dancing Yr 9 and younger	2. Manw Lili Robin
Llefaru Unigol Bl 7-9/ Recitation Solo Yr 7-9	1. Ania Moore 2. Lois Wiliam
Grŵp Llefaru Bl 7-9/ Recitation Party Yr 7-9	2. YDH
Llefaru Unigol Bl 10 a dan 19 oed / Recitation Solo Yr 10 and under 19yrs old	2. Lois Angharad Williams
Monolg Bl 10 a dan 19 oed/ Monologue yr 10 and under 19yrs old	2. Ffion Elin Davies

Taith AMDRO

Fel rhan o'r gwaith theori AS TGCh mae disgyblion Bl. 12 yn cael y cyfle i astudio'r broses CAD/CAM, sef defnyddio cyfrifiaduron i ddylunio gwrthrych ac yna ei greu gyda pheiriant arbennig sydd yn gysylltiedig â'r cyfrifiadur. Manteisiwyd yn fawr eleni ar y cyfle i ymweld â chwmni Amdro Alternative Campervans yng Nghaernarfon.

Yno, cafodd y disgyblion y cyfle i weld yr holl broses y mae'r

cwmni yn ei ddilyn wrth ddylunio'r dodrefn sydd tu mewn i Gampervan ar gyfrifiadur cyn eu creu ar un o'r peiriannau CAM.
Roedd hyn yn brofiad da i bawb ac roedd gan y



disgyblion ddiddordeb mawr yn yr holl broses ac roedd Liam wrth ei fod gan iddo gael treialu un o'r "boot jumps".



Rydym yn ddiolchgar iawn i gwmni Amdro am y cyfle i ymweld a dymunwn bob llwyddiant iddynt i'r dyfodol.

Educational visit to Amdro

During the Year 12 ICT AS course, students have the opportunity to study the CAD/CAM process, learning about the design process which will take place firstly on a computer, and then the object can be created using a machine connected to a computer.



Fortunately Amdro, a local Alternative Campervan designer company, gave the students the opportunity to visit their factory in Caernarfon, to see the complete CAD/CAM process in action. Students were given the chance to see Campervan furniture designed on a computer and then manufactured using a machine connected to the computer.



Everyone showed great interest in the process, especially Liam who had the chance to sit in one of the boot jumps.



We are very grateful for the opportunity to visit Amdro. Everyone enjoyed the morning, benefiting from the experience and we wish them every success for the future.

Taith Yr Adran Dechnoleg i Disneyland a Pharis

Dros wyliau hanner tymor Chwefror cychwynnodd 37 o ddisgyblion a 4 aelod o staff yr Adran Dechnoleg am Disneyland a Pharis. Dysgwyr blynnyddoedd 10 ac 11 oedd yn astudio Technoleg (Arlwyo, D&T a Thecstilau) oedd ar y daith. Pwrpas yr ymweliad oedd cael mewnwlediad i sut mae agweddu o'r pwnc yn perthnasu â sefyllfa oedd mewn cyd-destun byd real, a hynny yn Disneyland (a hefyd i gael ychydig o hwyl!). I gael cyd-destun ehangach a hanesyddol y pwnc, cawsom hefyd ymweliad ag amgueddfa fawreddog a byd enwog y Louvre ym Mharis. Yma ceir creiriau hynafol iawn yn dangos datblygiad dylunio a chreu mewn amryw o gyfryngau dros nifer o ganriffoedd.

Cawsom ddwy seminar yn Disneyland ar agweddu sydd yn ymwneud â'r pwnc: pa ddefnyddiau sy'n cael eu rhoi i mewn i adeiladwaith y 'rollercoasters', y gwisgoedd yn y gorymdeithiau a sut maent yn darparu gwahanol fwydydd ar gyfer ystod fawr o boblogaethau o wahanol hil. Ar ôl gweld y cyflwyniad a chymryd rhan mewn gweithdy, cafodd y bobl ifanc gyfle i ymweld â'r parc, i fwynhau a chael gweld yr hyn oedd gan Disneyland i'w gynnig.

Roedd y staff wedi eu plesio yn fawr iawn gydag ymddygiad pob un o'r bobl ifanc. Roedd ynt i gyd yn wych. Gobeithiwn gynnig taith o'r un fath eto yn y dyfodol ar gyfer dysgwyr blynnyddoedd 10 ac 11 sy'n astudio un o'r meysydd sy'n cyfrannu at yr adran Technoleg, sef Arlwyo, D & T a Thecstilau.

Am y newyddion diweddaraf o'r adran ac ychydig mwy o luniau'r daith gallwch ddilyn yr adran ar Twitter: **@DT_YDH**.



Disgyblion gwych Yr Adran Dechnoleg, Ysgol David Hughes.



Catrin ac Ellen yn cyfarfod Goofy



Gweithio'n galed yn y gweithdy!



Ar fin mwynhau diwrnod yn y parc!

The Technology Department's Visit to Disneyland and Paris

Over the February half term holiday, 37 pupils and 4 members of the Technology department's staff travelled to Disneyland and Paris. The pupils on the visit were year 10 and 11 pupils who were studying Technology (Catering, D&T and Textiles). The purpose of the visit was to gain an insight into how aspects of the subject are related to situations in a real life context, in this case, at Disneyland (and to have some fun!). For a wider and more historical context for the subject, we also visited the famous and grand Louvre museum in Paris. Here there are ancient relics showing design and creativity in a variety of media over the centuries.

At Disneyland we attended two seminars on aspects involving Technology: what materials are used in the construction of the 'rollercoasters', the costumes in the processions and how the park prepares different foods for the great range of populations of different races who visit the park. Following the presentation and after taking part in a workshop, the young people had an opportunity to visit the park, to enjoy themselves and to see what Disneyland had to offer.

The staff were most pleased with the behaviour of each one of the young people. They were all marvellous. We hope to organise a similar visit again in the future for learners from years 10 and 11 who are studying one of the fields contributing to the Technology department, ie Catering, D & T and Textiles.

For the latest news from the department and more pictures of the visit you can follow the department on

Twitter: **@DT_YDH.**



Ysgol David Hughes's fantastic Technology Department pupils.



Catrin and Ellen meeting Goofy




Working hard in the workshop!



About to enjoy a day at the park!



5x60 Summer Timetable 2016




	<u>School Sportshall</u>	<u>Fitness Room/ Dance Studio</u>	<u>School Field</u>	<u>Girls Gym</u>	<u>After School</u>
<u>Monday</u>	Athletics Yr 7-11 Giris Football Yr 7-9 	Fitness Yr 10-13 	Football Yr 10 	Handball Yr 7-9 	Athletics Yr 7-11 Fitness Yr 8&9 Golf Yr 7-9 Fitness Yr 10-13
<u>Tuesday</u>	Hockey Yr 7-10 	Fitness Yr 8 & 9 	Athletics Yr 7 - 9 		
<u>Wednesday</u>	Badminton Yr 7-9 	Fitness Yr 10-13 	Football Yr 9 	Netball Girls Yr 7 	Badminton after school 3:30-5pm Fitness Yr 10-13
<u>Thursday</u>	Netball Girls Yr 8 & 9 	Table Tennis Yr 7-11 			
<u>Dydd Gwener</u>	Basketball Yr 7 & 8 	Fitness Yr 10-13 	Boys Football Yr 8 Girls Football Yrs 7-9 	Tennis Yr 7&8 	Mountain Biking Yr 7-11 5 a side staff



sportwales
chwaraeoncynru



Amserlen 5x60 Haf 2016



	<u>Neuadd Chwaraeon</u>	<u>Ystafell Ffitrwydd / Stiwdio Dawns</u>	<u>Cae Ysgol / Cage</u>	<u>Gampfa'r Genethod</u>	<u>Ar ôl Ysgol</u>
<u>Dydd Llun</u>	Athletau BI 7-11 	Ffitrwydd BI 10-13 	Pêl Droed bl 10 	Pêl Llaw bl 7 – 9 	Athletau BI 7-11 Ffitrwydd BI 8 a 9 Golff BI 7-9
<u>Dydd Mawrth</u>	Droed Gene BI 7-9 	Hoci BI 7-10 	Ffitrwydd bl 8 a 9 	Athletau bl 7 – 9 	Ffitrwydd BI 10-13
<u>Dydd Mercher</u>	Badminton BI 7-9 	Ffitrwydd 10-13 	Pêl droed bl 9 	Pêl Rwyd Genethod bl 7 	Badminton ar ôl ysgol 3:30-5pm
<u>Dydd Iau</u>	Pêl Rwyd 	Tennis Bwrdd 			Ffitrwydd BI 10-13
<u>Dydd Gwener</u>	Genethod 8 a 9 	Pêl Fasqed 	Ffitrwydd BI 10-13 	Pêl Droed bechgyn bl 8 Pêl droed genethod BI 7-9 	Tennis BI 7 a 8
					Beicio Mynydd BI 7-11 5 a side staff



sportwales
chwaraeoncymru